Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhagfyr 2007

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Newid gyda'r amserau

Dadl Charles Darwin, a ddatblygodd y theori esblygiad oedd: "Nid y cryfaf o'r rhywogaeth fydd yn goroesi, na'r mwyaf deallus, ond yr un sydd fwyaf ymatebol i newid."

Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd yn eich sector busnes, a thros pa raddfa amser mae'r newid hwn yn digwydd? Yn bwysicach, sut ydych chi a'ch cwmni'n paratoi ar gyfer y newidiadau hynny neu'n ymateb iddyn nhw?

Mae maint yn bwysig

Yn ddiweddar, ysgrifennodd David Sadtler, aelod cyswllt Canolfan Rheolaeth Strategol Ashridge yng nghylchgrawn Management Today: "Wrth adeiladu menter fawr trwy berfformiad eithriadol o gystadleuol, gall eich llwyddiant ynddo'i hun arwain yn y pen draw at eich dinistr. Yn y diwedd, ni fydd trechu'r gystadleuaeth mewn brwydrau cyfarwydd yn ddigon. Byddwch am dyfu'n fwy fyth, a dyna pryd y bydd problema

Ydych chi wedi ystyried pa mor fawr yr hoffech i'ch busnes fod a pham? Os bydd eich busnes yn tyfu, a oes gennych chi gynllun i ymdopi â'r newidiadau diwylliannol a sefydliadol a ddaw yn sgil hynny? Allai maint danseilio'ch menter?

Mater o deyrngarwch

Darganfu pleidlais gan YouGov o 40,000 o weithwyr y DU oedd yn cynnwys sawl teitl swydd a sector gwahanol mai 56% yn unig fyddai'n canmol eu cwmnïau wrth eraill, a 48% yn unig a ddywedodd eu bod yn teimlo 'teyrngarwch ac ymgysylltiad' â'u cyflogwr.

A fyddech chi'n hapus pe bai'r ffigyrau hynny'n wir am eich cwmni chi? A fyddai ots gennych chi pe na byddai rhai staff yn teimlo'n deyrngar i'r cwmni, cyn belled â'u bod nhw'n cyrraedd y gwaith, yn cyflawni'u swydd yn iawn ac yn teimlo'u bod wedi ymgysylltu â'u cydweithwyr? A ddylech chi ofyn sut mae pobl yn teimlo am y cwmni mewn gwirionedd a cheisio newid eu barn, neu fod yn barod i dderbyn nad yw llawer ohonyn nhw'n 'bobl cwmni'?

Dan straen eithriadol

Y llynedd, fe wnaeth hyd at hanner miliwn o weithwyr y DU geisio cyngor meddygol ar gyfer straen yn ymwneud â gwaith, yn ôl ffigyrau newydd oddi wrth Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bellach, mae'r awdurdod wedi cynhyrchu canllawiau helpu rheolwyr i leihau lefelau straen ymhlith eu staff.

I ba raddau ydych chi'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod pobl yn mwynhau eu gwaith yn eich sefydliad? Os ydych chi o'r farn bod hyn yn bwysig, sut ydych chi'n cyfleu hyn i'ch rheolwyr a'ch staff?

Derbyn y bai

Yn ei lyfr The Rules of Management, sy'n gwerthu fel slecs, gwnaeth Richard Templar y sylw: "Byddai'ch tîm yn marw drosoch os ydych chi'n barod i dderbyn y bai pan mae pethau'n mynd yn anodd. Nid oes unrhyw beth yn cynhyrchu mwy o deyrngarwch na phennaeth sy'n barod i sefyll i fyny a chymryd cyfrifoldeb."

Pan fydd pethau'n mynd o chwith yn eich cwmni neu'ch adran chi, fyddwch chi'n reddfol yn pwyntio bys at is-weithwyr, ynteu fyddwch chi'n ystyried sut y gwnaethoch chi fel rheolwr gyfrannu at y broblem? Sut allwch chi dderbyn y bai ar ran y tîm heb fod yn rhy feddal ac anfon yr anwydd anghywir i aelodau unigol a wnaeth draed moch o bethau?

Gwerth eu darllen

Mae The Art of Creative Thinking gan John Adair (Kogan Page) wedi'i ailargraffu, yn dilyn ei gyhoeddi'n gyntaf ym 1990. Rydym oll yn awchu am syniadau newydd, ac amcan y llyfr hwn yn syml yw ein helpu i ddatblygu strategaethau i allu gwneud hynny. Beth am ddechrau trwy ddarllen llyfr? Os na wnaiff unrhyw beth arall, bydd yn eich rhoi yn yr hwyliau i gael meddyliau creadigol. Mae ynddo lawer o enghreifftiau o feddylwyr enwog i ysbrydoli'r darllenydd. Os cewch eich hun yn syllu ar sgrin wag cyfrifiadur, yn disgwyl am ysbrydoliaeth, efallai mai hwn yw'r union lyfr i chi.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth